

# Seibiannau Byr ar gyfer Plant Anabl a'u Teuluoedd - Datganiad Cyngor Sir Caerfyrddin



Wendy Thomas Mehefin 2013

## **Rhagarweiniad**

Yn 2012 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Reoliadau Seibiannau i Ofalwyr Plant Anabl (Cymru). Mae'r rhain yn dynodi bod yn rhaid i Awdurdodau Lleol ddarparu seibiannau byr ar gyfer plant anabl a'u rhieni/gofalwyr. Hefyd, mae'n rhaid inni ddarparu datganiad gwasanaethau seibiannau er mwyn i bawb wybod pa seibiannau byr a gynigir gennym yn Sir Gaerfyrddin.

## **Beth yw seibiannau byr?**

Yn draddodiadol cyfeiriwyd at seibiannau byr fel gofal seibiant. Fodd bynnag, prin y defnyddir y term o gwbl yn y Gwasanaethau Plant mwyach oherwydd roedd teuluoedd a gweithwyr proffesiynol o'r farn ei fod yn derm negyddol iawn a oedd yn gwneud i'r plant ymddangos fel problem.

Felly, defnyddir y term seibiant byr ar gyfer unrhyw weithgaredd neu gymorth sy'n cynnig cyfle i blant anabl gael hwyl, rhoi cynnig ar weithgareddau newydd, cymdeithasu, gwneud ffrindiau a magu annibyniaeth.

Mae'r seibiant byr yn galluogi teuluoedd i wneud pethau cadarnhaol gyda'i gilydd neu'n helpu'r plentyn mewn amgylchedd diogel a sicr, ac o ganlyniad mae'r rhiant/gofalwr yn cael seibiant o'i gyfrifoldebau gofalu.

Mae rhagor o wybodaeth ar wefan [www.fis.carmarthenshire.gov.uk](http://www.fis.carmarthenshire.gov.uk) neu ffoniwch 01267 246 555

Neu, ar wefan wybodaeth rhieni-gofalwyr [www.haipac.org.uk](http://www.haipac.org.uk)

Neu, drwy wasanaeth Ymgynghorwyr Teulu Mencap ar rif ffôn 01267 232 256

## **Sut mae manteisio ar seibiant byr**

Gall rhai gwasanaethau gael eu defnyddio gan bawb ond, yn achos gwasanaethau eraill, mae'n ofynnol i anghenion y plant a'r teulu gael eu hasesu ac i atgyfeiriad gael ei wneud. Yn yr adrannau canlynol rhoddir disgrifiad o'r rhain:

- a) Y gwasanaethau sy'n agored i bawb
- b) Y gwasanaethau sy'n agored i blant anabl nad ydynt yn cael eu cefnogi gan y Tîm Anableddau Plant.

c) Gwasanaethau y gellir ond eu defnyddio trwy gyfrwng y Tîm Anableddau Plant

**a) Gwasanaethau sy'n agored i bawb**

Yn Sir Gaerfyrddin mae ystod eang o wasanaethau e.e. clybiau cymdeithasol, clybiau chwaraeon ac ati, sy'n agored i bawb. Mae plant a phobl ifanc anabl a'u teuluoedd yn aelodau o'u cymunedau lleol a gallant fanteisio ar yr un cyfleoedd â phob dinesydd arall sy'n byw yn yr ardal. Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Gaerfyrddin yn rhoi gwybodaeth a chyingor ynghylch yr hyn sydd ar gael yn lleol i bob rhiant a gofalwr yn Sir Gaerfyrddin. Gellir cael gafael ar y gwasanaeth drwy wefan [www.fis.carmarthensire.gov.uk](http://www.fis.carmarthensire.gov.uk) neu ffoniwch 01267 246555.

**b) Gwasanaethau sy'n agored i blant anabl nad ydynt yn cael eu cefnogi gan y Tîm Anableddau Plant.**

Mae gan rai plant anghenion ychwanegol sy'n gofyn am ragor o gymorth ond nad oes angen gweithiwr allweddol arnynt yn y Tîm Anableddau Plant. Hefyd, mae gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd fanylion am weithgareddau ar gyfer plant anabl neu'r rheiny sydd ag anghenion ychwanegol. Yn ogystal, mae'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn cynorthwyo plant i fanteisio ar weithgareddau megis:

- Grwpiau Chwarae
- Cynlluniau chwarae
- Clybiau y tu allan i oriau ysgol
- Marchogaeth i bobl anabl
- Mynychu grwpiau priff ffrwd e.e. Brownis
- Grwpiau gweithgaredd a chymdeithasol arbenigol

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin hefyd yn talu'n rhannol am **Gynllun Cynhwysiad Sir Gaerfyrddin**. Mae'r Cynllun hwn yn darparu cymorth amser-penodol 1:1 i blant sydd â chyflyrau megis Syndrom Asperger neu ADHD fel y gallant ddefnyddio darpariaethau prif ffrwd. Mae hyn yn galluogi'r plentyn i ddatblygu sgiliau a rhwydweithiau cymdeithasol fel y gallant barhau i ddefnyddio'r gwasanaeth yn y tymor hir e.e. clybiau ieuenctid, Brownis, clybiau nofio. Gellir cael manylion am Gynllun Cynhwysiad Sir Gaerfyrddin ar wefan [www.haipac.org.uk](http://www.haipac.org.uk) neu drwy ffonio Wendy Thomas ar rif 01267 246536.

Yn ogystal mae **Gwasanaeth Cyngori Awtistiaeth Oedolion Sir Gaerfyrddin** yn cynnig gwasanaeth cyfeirio, gwybodaeth a chynghori i oedolion 18 oed a hŷn sydd â syndrom Asperger neu awtistiaeth gweithredu lefel uwch. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn o wefan <http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/preswylwyr/gofal-cymdeithasol-ac-iechyd/anghenion-cymorth-ychwanegol/awtistiaeth> neu drwy ffonio 01267 246513.

### **c) Gwasanaethau y gellir ond eu defnyddio trwy gyfrwng y Tîm Anabledau Plant neu'r Tîm Pontio**

Mae'r rhain yn wasanaethau arbenigol sy'n cynorthwyo plant anabl sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth a'u teuluoedd. Mae darparu'r gwasanaethau hyn yn seiliedig ar anghenion a aseswyd a chânt eu clustnodi drwy gyfrwng proses dyrannu'r gwasanaeth. Mae amrywiaeth o wasanaethau mewnol a rhai a gomisiynir sy'n cynnig seibiant o ychydig oriau i seibiannau dros nos – mae hyn yn adlewyrchu anghenion a dymuniadau amrywiol plant anabl a'u teuluoedd. Wrth ddatblygu amrywiaeth o wasanaethau gobeithio y byddwn yn cynyddu'r dewis ac yn fwy hyblyg i anghenion.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r gwasanaethau a gynigir gennym:

- Seibiannau dros nos yng nghanolfannau plant Llys Caradog a Blaenau
- Seibiannau dros nos mewn cartrefi gofalwyr seibiant byr
- Seibiannau hirach gyda gofalwyr maeth arbenigol
- Gwasanaeth cymorth i deuluoedd
- Gofal cartref arbenigol
- Cynlluniau chwarae a chlybiau ar ôl ysgol arbenigol
- Clybiau ieuencid a chlybiau cymdeithasol
- Clybiau ieuencid a grwpiau cymdeithasol Pontio
- Clybiau Sadwrn cymdeithasol i bobl ifanc ag anhwylderau yn y sbectrwm awtistiaeth
- Grwpiau bach arbenigol ar sail diddordebau e.e. grŵp Outward Bound yn yr haf
- Cymorth mewn darpariaeth brif ffrwd e.e. grwpiau chwarae, clybiau cymdeithasol etc
- Taliadau uniongyrchol

Bydd yr holl blant a phobl ifanc anabl sy'n derbyn cymorth gan dimau Anabledd a thimau Pontio plant yn cael cynlluniau gofal manwl sy'n edrych ar y canlynol:

- Anghenion y plentyn neu berson ifanc, gan gynnwys rhai cymdeithasol ac emosiynol
- Anghenion y rhiant/gofalwr
- Cynlluniau a dyheadau tymor hir
- Trefniadau mewn argyfwng
- Unrhyw anghenion ychwanegol e.e. cymhorthion a chyfarpar arbenigol, trafnidiaeth etc.

## **Cymhwysedd**

Tîm amlddisgyblaethol yw'r Tîm Anableddau Plant sy'n cynorthwyo plant anabl sydd ag anabledd parhaol a sylweddol. Nid ydynt yn cynnig cymorth i'r rheiny sydd â'r canlynol:

- Anhwylder Gorfywiogrwydd a Diffyg Canolbwyntio (ADHD)
- Anawsterau ymddygiad
- Anableddau dysgu ysgafn neu gymedrol oni bai bod anableddau sylweddol ychwanegol

Tîm Gofal Cymdeithasol yw'r Tîm Pontio sy'n gweithio gyda phobl ifanc rhwng 16 a 25 oed. Maen nhw ond yn gweithio gyda phobl ifanc sydd wedi defnyddio neu sy'n gymwys i ddefnyddio gwasanaethau'r Tîm Anableddau Plant.

## **Sut mae gwasanaethau'n cael eu datblygu**

Mae'r gwasanaethau sydd ar gael yn Sir Gaerfyrddin yn cael eu rhoi gan amrywiaeth o ddarparwyr gan gynnwys Cyngor Sir Caerfyrddin a'r sectorau gwirfoddol ac annibynnol. Rydym yn comisiynu gwasanaethau ar sail y canlynol:

- Dynodi anghenion drwy siarad â phlant a phobl ifanc anabl, rhieni, gofalwyr, gweithwyr proffesiynol a 'rhanddeiliaid' eraill sydd â diddordeb. Rydym yn gwneud hyn drwy amrywiaeth o bethau megis gweithdai, holiaduron, adolygiadau unigol, cyfweiliadau, ymchwil ac arferion gorau.
- Mae gennym sawl cynrychiolydd rhieni sy'n gweithio gyda ni ar grwpiau tasgau a grwpiau cynllunio parhaus i sicrhau bod safbwyntiau rhieni/gofalwyr yn rhan o unrhyw gynllunio a chomisiynu. Caiff y cynrychiolwyr hyn eu cynorthwyo gan Mencap, a gomisiynir gennym i ddarparu'r gwasanaeth.

- Yn ogystal, rydym yn sicrhau ein bod yn manteisio ar unrhyw gyllid allanol i'n helpu i ddatblygu cymaint o ddarpariaeth â phosibl; mae hyn yn cynnwys cyllid gan Ewrop, Llywodraeth Cymru a'r Loteri.
- Rydym yn monitro perfformiad gwasanaethau yn y sir yn barhaus ac fel rhan o hyn rydym yn sicrhau ein bod yn cywain barn plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr. Os yw'n briodol byddwn yn gweithio'n agos gyda darparwyr i wella perfformiad neu i ail-gomisiynu gwasanaethau i sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc anabl yn cael mynediad i wasanaethau effeithiol, priodol, o ansawdd da.
- Mae hyn yn wir hefyd ynghylch ein gwasanaethau mewnol, gan gynnwys y Tîm Anabledd Plant a Thîm Pontio eu hunain.  
Mae llawer o waith wedi cael ei wneud, ac yn dal i gael ei wneud, mewn perthynas â Phontio. Mae strategaeth a ffrydiau gwaith Pontio wedi cael eu datblygu er mwyn gwella profiadau pobl ifanc anabl a'u teuluoedd wrth i'r person ifanc dyfu'n oedolyn.